Papur Ymgynghori Awdurdod S4C:

Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Ymateb y BBC i'r Ymgynghoriad

Crynodeb Gweithredol

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i ymateb i ddogfen ymgynghori Awdurdod S4C ac i gymryd rhan yn y drafodaeth bwysig ynglŷn â'r ddarpariaeth o raglennu Cymraeg i blant a phobl ifanc.

Mae'r drafodaeth yn un amserol o gofio'r newid cyn bo hir o deledu analog i deledu digidol yng Nghymru a'r newid o'r defnydd o gyfryngau traddodiadol i ffurfiau newydd o gyfryngau.

S4C, ar ôl y BBC, bellach yw'r ail fuddsoddwr mwyaf mewn cynnwys a gynhyrchir yn wreiddiol yn y DU ar gyfer plant a phobl ifanc. Credwn bod amrywiaeth cyflenwad o fewn y genres plant yn rhywbeth i'w groesawu. Croesawn hefyd yr uchelgais i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth yn y ddarpariaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd hyn yn y Gymraeg.

Mae'r BBC yn falch o'i pherthynas greadigol a chynhyrchiol gydag S4C sydd wedi gwasanaethu'r Sianel yn dda ers ei sefydlu ym 1982. Mae gan y ddau ddarlledwr gyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus a thraddodiadau cryf mewn darparu cynnwys o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd yn Gymraeg. Mae hyn yr un mor wir am raglenni plant ag y mae am genre rhaglenni eraill. Mae'r Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C yn tanlinellu ein hymrwymiadau i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith ac i S4C.

Yn ein hymateb yr ydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau penodol a ofynnir yn y ddogfen ymgynghori ac i ehangu ar rai o'r materion a godir gan y cynigion a'r dewisiadau a gyflwynir.

Cydnabyddwn mai mater i Awdurdod S4C yw asesu gwerth y cynigion a'u heffaith ar unrhyw wasanaethau sydd yn bodoli neu ar unrhyw wasanaethau newydd arfaethedig i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Yn y ddogfen hon awgrymwn ffyrdd o gydbwyso'r ystyriaethau a sut y gellir cyflawni amrywiadau yn y dewisiadau sydd yn bodoli.

Rydym wedi darparu ein dealltwriaeth ein hunain o'r cynulleidfaoedd hyn a'r newid cyflym yn eu hymddygiad o ran y defnydd o gyfryngau (adran 2). Yn adran 3, disgrifiwn yn gryno y Bartneriaeth Strategol sydd yn darparu'r cefndir ar gyfer datblygu ein syniadau golygyddol ein hunain yn y genre plant. Mae adran 4 yn gosod Gwasanaeth Cynulliad S4C2 yn ei gyd-destun hanesyddol ac yn disgrifio'r modd y mae darlledu gwleidyddiaeth yng Nghymru wedi newid ers 1999.

Yn adran 5, rydym yn ymateb yn fanwl i gynigion Awdurdod S4C ar gyfer y gwasanaeth teledu newydd i blant a'r dewisiadau sydd dan ystyriaeth. Wrth wneud hynny, nodwn bod rhai meysydd lle y byddai rhagor o esboniad ar y cynigion yn gymorth i drafodaeth gyhoeddus, yn cynnwys:

a) ydy'r Awdurdod wedi ystyried modelau eraill o gyflwyniad ai peidio (5.10)

b) a fydd rhaglennu plant yn parhau ar S4C Digidol, ac os felly a ellid ei ymestyn (5.20)

c) a fydd yr oriau rhwng 6.00am – 12.30pm ar S4C Digidol ar gael ar gyfer rhaglennu plant neu ar gyfer rhaglennu gwleidyddol (5.23 – 5.26)

d) dibenion a mesurau perfformiad y gwasanaeth newydd (5.6)

e) cwotâu cynhyrchu a chyllid (5.9-2)

f) a fydd rhywfaint o'r rhaglennu yn ddwyieithog neu yn Saesneg (5.9-3)

Ar wahân i'r materion polisi y bydd angen i Awdurdod S4C eu hystyried, mae materion pwysig yn ymwneud â'r gofod fydd ei angen i ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig ar deledu digidol daearol. Yn 5.13 nodwn ein dealltwriaeth o ofynion darlledu y tri dewis fel y'u cyflwynir yn y ddogfen ymgynghori.

Y bwriad ar hyn o bryd yw y bydd gwasanaethau digidol cyfredol S4C – S4C Digidol ac S4C2 – yn symud i ofod amlblethiad y BBC (Mux B) yng Nghymru yn unig, o gychwyn y newid i ddigidol yn 2009. Ond, rhaid nodi na fydd y gofod a fyddai ar gael i S4C2 ond ar gael am oriau'r gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli. Y tu allan i'r oriau hynny, defnyddir y gofod perthnasol gan wasanaethau'r BBC ac ni fyddai ar gael felly ar gyfer gwasanaeth newydd S4C i blant. (5.17)

Mae hyn yn amlwg yn codi cwestiynau y bydd yn rhaid i'r Awdurdod fynd i'r afael â nhw wrth ystyried disodli S4C2 gyda gwasanaeth plant ai peidio, yn enwedig sut y gellid rhoi lle i unrhyw amrywiad yn amserlennu'r ddau wasanaeth gwahanol ar deledu daearol digidol.

Yn hyn o beth, croesawn y gydnabyddiaeth yn y ddogfen ymgynghori bod gofod daearol digidol arall wedi'i gadw fel bod S4C yn gallu lansio gwasanaethau Cymraeg ychwanegol am ddim. Awgryma hyn ynddo'i hun y gallai, yn ymarferol, fod yn bosibl parhau i ddarparu gwasanaeth darlledu S4C o'r Cynulliad (yn y gofod y bwriedir ei ddarparu ar hyn o bryd ar amlblethiad y BBC), tra'n lansio gwasanaeth newydd i blant yn y gofod a ddyrannwyd yn uniongyrchol i S4C. Mewn unrhyw ystyriaeth pellach o'r dewisiadau posibl, ac yn enwedig Dewis 3 (a fyddai'n ceisio parhau i gynnig gwasanaeth darlledu o'r Cynulliad yn ychwanegol at sianel newydd i blant) byddai'n ddefnyddiol gwybod pa ystyriaeth a roddwyd gan yr Awdurdod fod wedi'i roi i sefyllfa o'r fath.

1. Cyflwyniad

1.1. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda thwf teledu digidol, cynnydd mewn argaeledd cynnwys yn ôl y galw a chymylu ffiniau rhwng platfformau, mae cynulleidfaoedd ifanc wedi bod ar flaen y gad o ran y newid yn nhirwedd y cyfryngau.

1.2. Nid ydynt yn ddigon hen i gofio byd heb ffonau symudol, na bywyd heb y rhyngrwyd, na theledu heb reolydd o bell a botwm coch. Maent yn disgwyl cael gafael ar beth y maent ei eisiau, pan maent ei eisiau a lle bynnag y maent eisiau – mae amserlennu yn gysyniad hen ffasiwn .

1.3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amserol hefyd gydag adolygiad Ofcom ar ddyfodol rhaglennu plant a'r Bartneriaeth Strategol a grëwyd yn ddiweddar rhwng y BBC ac S4C, sydd â'r diben cyffredin cytun o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd yn yr iaith Gymraeg yn ganolog iddo.

2. Y Cynulleidfaoedd

2.1. Mae ymchwil Ofcom a'r BBC yn cadarnhau'r newid cyflym a fu yn arferion y cynulleidfaoedd ifanc hyn o ran eu defnydd o'r cyfryngau, fel y disgrifir yn y ddogfen ymgynghori

2.2. Yn ei orolwg prosiect, mae Ofcom yn nodi'r ffaith bod plant bellach yn gallu cael gafael ar 18 o sianeli penodol i blant, ar gael ar blatfform aml sianel – y cyfan wrth gwrs yn Saesneg. Nid yw'n syndod felly bod Awdurdod S4C yn dod i'r casgliad '*nad yw S4C ar hyn o bryd yn ddewis naturiol i nifer sylweddol o blant'* yng Nghymru.

2.3. Mae ymchwil y BBC yng Nghymru ac ar draws y DU yn cadarnhau'r newid hwn mewn arferion o ran defnyddio'r cyfryngau a'r tueddiad i symud oddi wrth wylio teledu traddodiadol o blaid cynnwys cyfryngau newydd a phlatfformau newydd:

2.4. *Pwy ydynt?*

- Mae tua 600,000 o blant yng Nghymru dan 16 oed (20% o'r boblogaeth).
- O'r 500,000 o blant rhwng 3 -15, mae 185,000 (38%) ohonynt yn siarad Cymraeg – cynnydd o 50% rhwng 1991 a 2001. Ond i'r mwyafrif, Saesneg yw iaith y cartref – canran fechan yn unig sydd yn byw mewn cartref cyfan gwbl Gymraeg ei iaith.[1]
- Mae eu defnydd o'r iaith Gymraeg yn dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys a ydy eu rhieni yn siarad Cymraeg ai peidio, ai Cymraeg yw iaith y cartref; pwysau gan gyfoedion; y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned; lefel eu rhuglder a delwedd – eu delwedd eu hunain a delwedd yr iaith.
- Mae plant yng Nghymru yn tyfu i fyny mewn cymdeithas sydd yn gynyddol amrywiol o ran ethnigrwydd.
- Mae plant yn grŵp dylanwadol, er nad oes ganddynt lawer o arian yn eu dwylo. Mae tri chwarter y plant yn derbyn arian poced neu lwfans.

[1] Cyf: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

2.5. *Cyfryngau Cymraeg yn eu bywydau*[2]

- Yn gyffredinol mae cyfryngau Saesneg yn llawer mwy poblogaidd na chyfryngau Cymraeg; ychydig iawn o drafod a wnânt ar raglenni teledu Cymraeg gyda'u ffrindiau; mae ymwybyddiaeth am raglenni yn isel ac ychydig o sêr teledu yng Nghymru y maent yn eu hadnabod. Ond mae modelau rôl sydd yn siarad Cymraeg, fel Ioan Gruffudd a Rhys Ifans, yn cael eu hedmygu.

- Eu hoff raglenni teledu Cymraeg yw *Rownd a Rownd, Pobol y Cwm, Y Clwb Rygbi* ac *Eisteddfod yr Urdd.*

- Maent hefyd yn gwylio rhaglenni fel *Doctor Who, Coronation Street, EastEnders, Britain's Got Talent, Champions League, Casualty* a *Big Brother* (detholiad o'u prif gyfresi diweddar).

- Mae eu gwylio o sianeli eraill yn cadarnhau'r sylw yn y cyflwyniad i'r ymgynghoriad, nad S4C yw eu dewis cyntaf. Yn hytrach maent yn troi at CBBC ar BBC1, CITV a sianeli digidol plant os gallant.

- Maent eisiau gwybod am y byd y tu allan i Gymru ac nid yw eu diddordebau eraill ddim gwahanol i ddiddordebau eu cyfoedion ledled y DU. Mae gan rai ddiddordeb mewn newyddion ac yn gwylio *Ffeil* ar S4C (cyfartaledd cynulleidfa o 10,000) ond mae mwy ohonynt yn gwylio *Newsround* ar BBC One (cyfartaledd cynulleidfa yng Nghymru o 50,000).[3]

- Mae pobl ifanc Cymraeg yn eu harddegau yn defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer anfon a derbyn negeseuon, chwilio a rhwydweithio cymdeithasol ac mae bron y cyfan o'u gweithgarwch ffôn symudol ac ar-lein trwy gyfrwng y Saesneg. Ychydig iawn o negeseuon testun ac ar-lein sydd yn Gymraeg – os rhywbeth, mae'n gymysgedd o Gymraeg a Saesneg

2.6. Teledu, Cyfryngau Newydd a Radio yn eu bywydau

- Mae gan blant reolaeth sylweddol dros eu harferion gwylio eu hunain. Mae gan dros hanner plant oedran cynradd setiau teledu yn eu hystafelloedd gwely. Mae'r canran o blant sydd â DVDs, cyfrifiaduron a gemau consol hefyd wedi cynyddu.

- Mae dewisiadau teledu plant heddiw yn eang iawn. Maent yn byw mewn byd aml sianeli sydd yn cynnig rhywbeth iddynt i'w wylio beth bynnag yw'r amser. Mae tua hanner eu gwylio ar aml sianeli.

- Maent yn gwylio teledu wrth baratoi ar gyfer yr ysgol. Mae rhaglenni hawdd i'w gwylio yn gweithio orau yn ystod prysurdeb y bore.

- Ond mae effaith cyfryngau eraill ar deledu plant bellach yn amlwg – mae eu gwylio teledu yn gostwng flwyddyn wrth flwyddyn.

- Gall ychydig dros 7 allan o bob 10 plentyn 5 – 16 oed gysylltu â'r rhyngrwyd adref, naill ai drwy gyfrifiadur, gêm consol neu deledu. Gemau ar-lein yw'r gweithgarwch hamdden mwyaf poblogaidd.

- Mae ffonau symudol yn boblogaidd iawn. Mae 9 allan o bob 10 plentyn rhwng 11 – 16 oed yn berchen ar ffôn.

[2] Data BARB ac ymchwil marchnad y BBC
[3] cyfanswm cynulleidfa, pob oedran

- Mae plant yn tueddu i wrando ar orsafoedd cerddoriaeth bop prif ffrwd (e.e. Radio 1). Ychydig iawn a wrandawant ar orsafoedd radio geiriol. Gwrando ar radio analog yw'r dull mwyaf poblogaidd o bell ffordd o 'diwnio i mewn'.

- Yn gyffredinol mae pedwar allan o bob pump plentyn yn dweud eu bod yn gwrando ar radio (79%), yn enwedig plant hŷn.

2.7. Mae manylion pellach ac ymchwil marchnad diweddaraf y BBC ar gynulleidfaoedd plant ar gael yn www.bbc.co.uk/commissioning/marketresearch/

3. Partneriaeth Strategol y BBC gyda S4C

3.1. Cyhoeddwyd y Bartneriaeth Strategol rhwng y BBC ac S4C ar 17 Hydref 2006. Mae'n cynnwys Cyfraniad Rhaglenni a gwasanaethau'r BBC i S4C rhwng Ionawr 2007 a Rhagfyr 2009.

3.2. Cynigiodd y BBC y strwythur Partneriaeth Strategol er mwyn nodi yn glir ein hymrwymiad i deledu Cymraeg a'n cefnogaeth barhaus i S4C.

3.3. Mae'r Cytundeb yn cydnabod cyfrifoldebau a thraddodiadau'r ddau gorff o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel i gynulleidfaoedd trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n darparu fframwaith gadarn ar gyfer datblygu cynnwys llinellol ac an-llinellol ar y cyd.

3.4. Ymhellach, mae'n nodi sut y byddwn yn cryfhau ac yn ymestyn ein cyfraniad i S4C dros y cyfnod o dair blynedd wrth i S4C weithredu ei strategaeth rhaglenni yn y cyfnod yn arwain at y newid i ddigidol yng Nghymru yn 2009.

3.5. Mae'r Cytundeb yn cynnwys Fframwaith Cynllunio Golygyddol sydd yn nodi'r prosesau ar gyfer cytuno ar y cynllun rhaglenni blynyddol.

3.6. Yn ychwanegol, mae cylch gwaith Ymddiriedolaeth y BBC i BBC Cymru yn nodi y dylai ein rhaglennu ar S4C: *".. arddangos rhai neu'r cyfan o'r nodweddion canlynol: gwerthoedd cynhyrchu uchel, cynnwys gwreiddiol, heriol, arloesol sydd yn cydio ym mhobl. Dylai hefyd feithrin doniau Cymreig ar ac oddi ar y sgrin."*

3.7. Trwy adeiladu ar gryfderau sydd wedi'u sefydlu a manteisio ar sgiliau eang y BBC mewn cynhyrchu ac arloesi technolegol, ein nod yw gwneud cyfraniad sylweddol i amserlenni S4C gyda rhaglenni neilltuol o ansawdd a rhagoriaeth.

3.8. Ers sefydlu S4C ym 1982, mae'r BBC wedi cyflenwi o leiaf 520 awr y flwyddyn o raglenni i'r sianel, yn ddigost i S4C ac wedi'u hariannu gan ffi'r drwydded.

3.9. Eisoes, o dan y Cytundeb newydd a gyda'r buddsoddiad ychwanegol, bydd cyfanswm ein cyflenwad o raglenni i S4C tua 620 awr yn 2007/08.

3.10. Dylid nodi nad yw'r Cyfraniad Rhaglenni yn cynnwys darllediadau o weithrediadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hwn yn destun cytundeb ar wahân a ddisgrifir yn fanwl yn adran 4.

3.11. Y genres a werthfawrogir fwyaf ar S4C yw rhaglenni gwledig, chwaraeon (rygbi a phêl droed), drama, adloniant diwylliannol, digwyddiadau cenedlaethol, newyddion a materion cyfoes a chynnyrch plant. Ym mhob un o'r rhain dros y blynyddoedd mae BBC Cymru wedi cyflenwi amrywiol ganrannau o gyfanswm oriau genre ar S4C. Mae rhaglennu ysgolion hefyd wedi bod yn elfen gyson yn y cymysgedd.

3.12. Ond nid cyfrifoldeb y BBC yw cyflwyno amserlen teledu Cymraeg lawn ac amrywiol – cyfrifoldeb y darlledwr yw hynny. Credwn mai'r cyfraniad mwyaf gwerthfawr y gall y BBC ei wneud i S4C yw defnyddio ein hadnoddau a doniau ein staff – eu sgiliau golygyddol a chynhyrchu, eu harbenigedd technegol a gweithrediadol a'u harloesi yn y cyfryngau newydd – i ategu gwasanaeth teledu Cymraeg.

3.13. Felly, yn unol â chylch gwaith Ymddiriedolaeth y BBC i BBC Cymru, mae ein strategaeth rhaglenni mewn teledu Cymraeg yn blaenoriaethu genres er mwyn cefnogi amcanion golygyddol S4C a hefyd gwasanaethu dibenion cyhoeddus y BBC.

3.14. Y dibenion cyhoeddus hynny fel a nodir yn Siarter y BBC yw:

- Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil
- Symbylu creadigrwydd a rhagoriaeth diwylliannol
- Cynrychioli'r DU, ei chenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau
- Hyrwyddo addysg a dysgu
- Dod â'r DU i'r byd a'r byd i'r DU
- Cynorthwyo i gyflwyno manteision technolegau cyfathrebiadau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd

3.15. Yn ychwanegol mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ei gwneud yn ofynnol:

- y bydd gan ein rhaglennu a gyfrannir i S4C, wrth ei graidd, y rhwymedigaeth i ddarparu newyddion dyddiol cywir, diduedd ac annibynnol i gynulleidfaoedd a rhaglenni sydd yn dogfennu bywyd sifil a gwleidyddol yng Nghymru a thu hwnt.
- y bydd yr allbwn nad yw'n newyddion yn adlewyrchu bywyd a diwylliant cyfoes a hanesyddol yng Nghymru. Dylai chwaraeon Cymru, yn cynnwys darlledu digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol, fod yn rhan o'r cymysgedd rhaglenni.
- Bydd BBC Cymru yn parhau i ddarparu newyddion i blant (fel yn y bwletin dyddiol cyfredol *Ffeil*). Byddwn hefyd yn datblygu rhaglennu addysgiadol arall i blant a phobl ifanc o fewn yr adnoddau a ddyrennir.

3.16. Cyn yr ymgynghoriad hwn, roedd genre plant yn un maes penodol a nodwyd gan BBC Cymru fel blaenoriaeth o fewn ein strategaeth rhaglenni er mwyn ymestyn cyrhaeddiad ein hallbwn teledu Cymraeg a chyfrannu at gynlluniau S4C i ddarparu gwasanaeth rheolaidd i blant rhwng 4.00pm-7.00pm

3.17. Er mai cyfrifoldeb S4C wrth gwrs yw amrediad ac amrywiaeth yr amserlen hon, rydym wedi bod yn rhagweithiol wrth gynnig ymateb golygyddol sylweddol a fydd yn cyfrannu at gyflawni nodau S4C.

3.18. Am sawl blwyddyn rydym wedi bod yn esblygu ein rhaglennu i blant o allbwn addysgiadol yn canolbwyntio ar y cwricwlwm i ffurfiau addysgiadol mwy adloniannol gydag apêl ehangach fel *Ffeil* a'r strandiau cyfredol *Bobinogi* a *Camp y Fan* .

3.19. Dyluniwyd *Bobinogi*, i annog dysgu ymysg plant pump oed ac iau. Yr athroniaeth yw 'dysgu trwy chwarae' i blant cyn oedran ysgol sydd yn siarad Cymraeg ac i'r plant hynny y mae eu rhieni eisiau iddynt ddysgu'r iaith.

3.20. Mae pwyslais *Camp y Fan* ar annog cyfranogiad, datblygu sgiliau meddwl a 'dysgu trwy hwyl'.

3.21. Am bron i ddegawd mae *Ffeil* wedi llwyddo i gyflwyno newyddion a materion cyfoes i blant ac wrth wneud hynny mae wedi eu cyflwyno i ramadeg a chonfensiynau newyddiaduriaeth a gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae wedi ennyn enw da rhyngwladol o fewn yr Undeb Ddarlledu Ewropeaidd am ei werthoedd cynhyrchu a'i ymgysylltiad â'r gynulleidfa darged. Ar hyn y bryd mae'r rhaglen yn darlledu yn ddyddiol mewn slot 5 munud ar ddiwedd awr plant S4C rhwng 4.00pm – 5.00pm.

3.22. Fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio Golygyddol rydym wedi cynnig ac wedi cytuno ag S4C i gynnwys rhaglen gylchgrawn newydd i gynulleidfa ifanc yn eu harddegau yn ein cyflenwad blynyddol. Wedi'i chyllido a'i chynhyrchu gan BBC Cymru o fewn adnoddau sydd eisoes yn bodoli, ar hyn o bryd bwriedir darlledu'r rhaglenni yn fyw, ar y cychwyn ddwywaith yr wythnos, o fis Tachwedd 2007.

3.23. Mae'r cynlluniau hyn yn unol â Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2007 oedd yn nodi – *"Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ymestyn ein darpariaeth i blant a byddwn yn canolbwyntio yn ystod 2007, ar y grŵp oedran 10-15 oed."*

3.24. Ein nod yw darparu rhaglenni arbennig a difyr o fewn fformat a fydd yn annog ymgysylltiad, yn caniatáu i bobl ifanc yn eu harddegau rannu eu profiadau, syniadau a phryderon a'u hysbrydoli i ddarganfod rhagor am eu diddordebau neu i ddatblygu rhai newydd.

3.25. Yn BBC Cymru mae gennym gysylltiadau gwaith agos gyda chydweithwyr yn CBeebies, CBBC, Teens, New Media etc ac rydym yn rhannu syniadau gyda nhw i gefnogi'r broses o wneud rhaglenni. Mae'r cysylltiadau gwerthfawr hyn yn ein galluogi i fanteisio ar sgiliau eang y BBC mewn cynhyrchu ac arloesi technolegol.

3.26. Bwriadwn hefyd adeiladu ar lwyddiant ein safleoedd ar-lein Cymraeg i blant trwy integreiddio cynnwys ar-lein ac ar yr awyr trwy ryngweithgarwch – cysylltu gyda chynulleidfaoedd trwy gyfrwng negeseuon testun, anfon negeseuon neu gyswllt uniongyrchol trwy fand eang neu ddyfeisiadau symudol mewn amgylchedd ddiogel.

3.27. Gyda'r Bartneriaeth Strategol yn ei lle a'r cynlluniau hyn ar y gweill, mae'r BBC felly yn croesawu ac yn cefnogi uchelgais S4C i ddarparu rhaglennu arbennig i'r cynulleidfaoedd hynny yn y grŵp cyn oedran ysgol, plant hŷn a phobl ifanc yn eu harddegau.

4. Darlledu Gwleidyddiaeth yng Nghymru

Gwasanaeth Cynulliad S4C2

4.1. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio'n fyr at ddarlledu gweithrediadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddarlledir ar hyn o bryd ar S4C2.

Cefndir

4.2. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys darllediadau byw o sesiynau llawn y Cynulliad ynghyd â darlledu byw neu wedi ei recordio o bwyllgorau dethol a sesiynau briffio. Caiff ei dalu amdano, a'i gynhyrchu gan BBC Cymru.

4.3. Daeth y gwasanaeth i fodolaeth ym 1999 oherwydd argaeledd gofod digidol newydd a ddarparwyd gan S4C ar amlblethiad daearol SDN, lloeren ddigidol a chebl digidol. Nid oedd gofod o'r fath ar gael yn unman arall, fel ag sy'n wir heddiw.

4.4. I'r BBC roedd yn gyfle partneriaeth oedd yn rhoi lle ychwanegol i ddarlledu gwleidyddiaeth Cymru. Roeddem ar ddeall ar y pryd bod S4C hefyd yn gweld yr un gwerth cyhoeddus i'r trefniant unigryw hwn.

4.5. Cynigiodd y BBC gyllido a chynhyrchu'r allbwn fel rhan o'n hymateb cyffredinol i ddatganoli yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel y cyhoeddwyd gan Lywodraethwyr y BBC ym mis Tachwedd 1998.

4.6. Strwythurwyd y trefniant fel perthynas cyd olygyddol rhwng y BBC ac S4C trwy ei is-gwmni S4C2 Cyf oedd yn gyfan gwbl eiddo iddo – y darlledu i'w ddarparu gan S4C2 Cyf gyda BBC Cymru yn darparu'r doniau newyddiadurol, golygyddol a chynhyrchu.

4.7. Derbyniodd y gwasanaeth ei drwydded ITC ar 23 Gorffennaf 1999 a dechreuodd ddarlledu ar 14 Medi y flwyddyn honno. Ers Ionawr 2001 mae'r gwasanaeth wedi bod ar gael hefyd i Arglwyddi ac AS ar gylched ddarlledu San Steffan.

4.8. Mae'r gwasanaeth ar S4C2 yn ddwyieithog ac mae'n adlewyrchu protocol a pholisi iaith y Cynulliad. Cynhelir y gweithrediadau ar lawr y Senedd yn Gymraeg ac yn Saesneg a darperir cyfieithu ar y pryd ar gyfer unrhyw gyfraniadau yn Gymraeg. Gall y gwylwyr ddewis trac sain y cyfieithydd i ddilyn y gwleidydd sydd yn annerch y Cynulliad yn Gymraeg.

4.9. Yn ychwanegol at yr elfen hon o ymateb rhaglennu'r BBC i ddatganoli, roedd ein hymrwymiadau eraill yn cynnwys creu uned ohebu wleidyddol newydd o fewn BBC Cymru; rhaglen deledu ddwywaith yr wythnos (yn cynnwys cwestiynau i'r Prif Weinidog) ar BB2 Wales; adrodd yn ddyddiol a rhaglennu wythnosol ar Radio Wales a Radio Cymru; allbwn wythnosol ychwanegol i S4C; darlledu byw o achlysuron seremonïol; ymestyn darlledu materion cyfoes a chryfhau'r tîm casglu newyddion yn cynnwys rhagor o ohebyddion arbenigol a newyddiadurwyr yn y rhanbarthau.

4.10. Ymrwymodd y BBC hefyd i ddarparu gwasanaeth newyddion Cymraeg newydd ar-lein, yn cynnwys safle neilltuol i wleidyddiaeth Cymru.

4.11. Ers yr etholiadau cyntaf i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 1999 mae cyfanswm oriau rhaglennu gwleidyddol a gynhyrchwyd gan BBC Cymru ar deledu a radio wedi cynyddu o 119 awr ym 1998 i 1,143 awr yn 2007. Mae hynny yn cynrychioli cynnydd o naw gwaith y maint mewn naw mlynedd.

4.12. Wrth gwrs, mae gwleidyddiaeth yn parhau i gael ei gynnwys yn helaeth yn ein hallbwn newyddion a materion cyfoes, gyda chyfartaledd o rhwng 10% a 15% o'r straeon ar raglenni newyddion ar bynciau gwleidyddol. Yn ystod ymgyrch etholiadol y Cynulliad eleni cododd y ffigur hwnnw i 40% mewn wythnos arferol ar draws yr allbwn.

4.13. Bu cynnydd enfawr yn y nifer o oriau a gynhyrchir gan Newyddion Radio Cymru. Mae'r cynnydd hwn – tua 18 awr yr wythnos – wedi arwain at ehangu sylweddol mewn darlledu o'r Cynulliad.

4.14. Mae datblygiad News Online a Newyddion Ar-Lein (gwasanaethau nad oeddent yn bodoli bron ym 1999) yn golygu bod cyrhaeddiad a dyfnder darlledu BBC Cymru o'r Cynulliad yn llawer gwell na'r hyn oedd yn bodoli ym 1999.

4.15. Mae'r gwasanaethau ar-lein nawr yn cynnwys clipiau sain a fideo o wleidyddion y Cynulliad a datblygiadau arloesol newydd fel blogiau gan ein Golygyddion Gwleidyddol a Materion Cymreig.

4.16. Ceir dadansoddiad yn Atodiad B o ddarlledu gwleidyddol BBC Cymru cyn ac ar ôl datganoli ynghyd â rhestr o'n rhaglenni a chynnwys gwleidyddol cyfredol.

Darpariaeth arall

4.17. BBC Parliament yw sianel gwasanaeth cyhoeddus y BBC sydd yn darparu darlledu cynhwysfawr o weithrediadau seneddol. Ei gylch gwaith yn y drwydded gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC yw *"gwneud gwaith siambrau seneddol y DU a'r Senedd Ewropeaidd ar gael i bawb"*. Un o'r amodau yw *"Darlledu 100 awr o leiaf o weithrediadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn"* – yr un fath â Senedd yr Alban.

4.18. O ran cymhariaeth, yn yr Alban nid oes gan y BBC fodd o gael gafael ar ofod i ddarlledu gwasanaeth tebyg o Senedd yr Alban. Mae Holyrood TV, sianel ar-lein Senedd yr Alban, yn cynnig ffrydiau byw o sesiynau llawn a gweithrediadau pwyllgorau. Nid yw ar gael ar loeren ddigidol, teledu daearol digidol na chebl digidol.

4.19. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn darlledu ei weithrediadau (sesiynau llawn a chyfarfodydd pwyllgorau) ar-lein fel gwasanaeth am ddim sydd ar gael yn http://www.webcasting.wales.gov.uk/live_webcast_e.asp#.

Yr amserlen ar S4C2

4.20. Ar hyn o bryd ar S4C2 mae'r BBC yn darlledu gweithrediadau'r Cynulliad Cenedlaethol bob dydd Mawrth, Mercher a Iau rhwng 9.00am a 6.00pm.

4.21. Darlledir pob sesiwn lawn yn y Siambr yn ogystal â'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau. Dangosir y gweithrediadau gydag ychydig neu ddim ymyrraeth golygyddol megis sylwebaeth neu droslais. Defnyddir testun ar sgrin fel dull anymyrrol o ddarparu esboniad ac mae'r wybodaeth ddwyieithog yn esbonio cefndir a chyd-destun trafodaethau'r diwrnod.

4.22. Defnyddir mewnosodiadau byw ar ddechrau a diwedd darlledu i ddadansoddi digwyddiadau gwleidyddol y dydd yn y Cynulliad gyda gohebwyr y BBC.

4.23. Bydd yr amserlen ddarlledu ar gyfer y sesiwn i ddod fel â ganlyn (yn fras):

Mawrth		
9.00am - 1.00pm	Pwyllgorau	(wedi'u recordio – heb eu darlledu o'r blaen)
1.45pm - 5.30pm	Sesiwn Lawn	(Byw – gyda chwestiynau i'r Prif Weinidog)
Mercher		
9.00am -11.30am	Pwyllgorau	(Byw – pwyllgor allweddol y dydd)
12.30pm - 5.30pm	Sesiwn Lawn	(Byw – yn cynnwys cwestiynau i'r Gweinidogion)
Iau		
9.30am -12.30pm	Pwyllgorau	(Byw – pwyllgor allweddol y bore)
2.00pm - 5.30pm	Pwyllgorau	(Byw – pwyllgor allweddol y prynhawn)

Gwerth Cyhoeddus gwasanaeth Cynulliad S4C2

4.24. Mae'r ddogfen ymgynghori yn datgan (3.3) - *"Nid yw gwasanaeth y Cynulliad ar S4C2 yn sianel gwasanaeth cyhoeddus ac nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol arnom i gyllido nac i ddarparu'r gwasanaeth hwn."* Wrth gwrs nid oes rhwymedigaeth ar S4C i ddarparu gwasanaeth i blant chwaith a mater i Awdurdod S4C fydd barnu ar deilyngdod perthynol darparu un gwasanaeth neu'r llall, neu'r ddau.

4.25. Er na chafodd ei dynodi yn ffurfiol yn sianel gwasanaeth cyhoeddus, sefydlwyd y trefniant gyda'r BBC ym 1999 i gyflwyno gwerth cyhoeddus ac yn amlwg ni chafodd ei lansio fel menter fasnachol. Felly, er gwaethaf statws gyfreithiol sianel S4C2, credwn y dylid ystyried cynnwys cyfredol y sianel ar wahân a'i farnu ar ei deilyngdod golygyddol fel allbwn gwasanaeth cyhoeddus

4.26. Wrth gwrs mater i Awdurdod S4C fydd asesu gwerth cyhoeddus gwasanaeth y Cynulliad ar S4C2 o fewn fframwaith llywodraethu a chymeradwyaethau'r Awdurdod. Mae'n ymddangos i'r BBC, fel cyflenwr y gwasanaeth cyfredol, fod angen pwyso a mesur y gwerth hwn yn erbyn manteision potensial darparu gwasanaeth newydd i blant, os yw ei golled yn ganlyniad angenrheidiol i'r cynnig hwn.

4.27. Efallai felly y byddai'r Awdurdod yn dymuno ystyried cyfraniad y gallai gwasanaeth y Cynulliad ei wneud yn ymarferol i gyflwyniad y dibenion a nodwyd gan Ofcom yn ei adolygiad darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys: *"hysbysu ein hunain ac eraill a chynyddu ein dealltwriaeth o'r byd trwy newyddion, gwybodaeth a dadansoddiad o ddigwyddiadau a syniadau cyfredol"*, *"adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth diwylliannol" ac "adlewyrchu bywydau pobl eraill a chymunedau eraill o fewn y DU a thu hwnt".*

4.28. Yn eu tro gellid pwyso'r rhain yn erbyn materion fel argaeledd ffynonellau eraill o ddarlledu gwleidyddol, newidiadau mewn technoleg a mwy o wybodaeth a dealltwriaeth cyhoeddus am wleidyddiaeth Cymru a gweithrediadau'r Cynulliad.

Perfformiad

4.29. Fel y nodwyd yn gynharach, mae darllediadau y BBC o'r Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2 y tu hwnt i gwmpas y Cytundeb Partneriaeth Strategol.

4.30. Fodd bynnag mae'r Cytundeb yn nodi fframwaith o ddangosyddion perfformiad i fesur llwyddiant ein cyfraniad i S4C. Maent yn adlewyrchu yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan fframwaith dangosyddion Ymddiriedolaeth y BBC yn seiliedig ar bedwar gyrrwr gwerth cyhoeddus, sef Cyrhaeddiad, Ansawdd, Effaith a Gwerth am Arian.

4.31. Disgrifir y dangosyddion hyn yn y Cytundeb Partneriaeth Strategol fel â ganlyn:

- Cyrhaeddiad a defnydd: dylai cyfraniad cyffredinol y BBC i S4C gyrraedd amrediad eang o wylwyr a, (lle mae'n briodol neu lle y nodir yn y Synopsis Golygyddol) dylent cael eu defnyddio yn eang gan ddarparu gwylwyr S4C gyda swm sylweddol o gynnwys o ansawdd uchel i'w fwynhau.
- Ansawdd ac arbenigrwydd: dylai rhaglenni'r BBC anelu at gyfrannu at ansawdd uchel, arbenigrwydd a rhagoriaeth creadigol gwasanaethau S4C.
- Effaith: dylai cyfraniad y BBC gael effaith ar gynulleidfaoedd teledu Cymraeg, a dylai rhaglenni, fel rhan cyfansoddol o'r nodwedd hwn fod yn heriol, yn ddeniadol ac yn gofiadwy a (lle mae'n addas) yn ddifyr.
- Cost a gwerth am arian: dylai cyfraniad y BBC gynrychioli gwerth am arian i'r rhai sydd yn talu'r drwydded.

4.32. Ym mhob un o'r meysydd hyn awgrymwn y bydd Awdurdod S4C efallai yn dymuno cynnwys y sylwadau canlynol ochr yn ochr ag unrhyw ymchwil ansoddol y gallai'r Awdurdod ei gynnal.

Cyrhaeddiad

4.33. Mae cael mesur gwrthrychol ar gyrhaeddiad, cyfran, nifer gwylwyr ac oriau gwylio S4C2 yn anodd gan nad yw BARB yn adrodd ar ddim gwybodaeth ar wylio S4C2.

4.34. Daw ein hymchwil ni o arolygon olrhain BBC Cymru a gynhelir yn flynyddol gan Beaufort Research. Yn y rhain gofynnwn pa sianeli digidol, o restr faith, y mae ymatebwyr "fyth yn eu gwylio y dyddiau hyn".

4.35. Daw'r data diweddaraf o fis Tachwedd 2005 oedd yn dangos bod 1.5% o oedolion yng Nghymru yn hawlio eu bod yn gwylio S4C2 y dyddiau hyn. Byddai hyn yn gyfwerth â 35,000 o bobl ond ystyriwn fod hyn yn oramcangyfrif oherwydd gor hawlio potensial a chamgymryd S4C2 am S4C Digidol.

4.36. Fodd bynnag, mae cymharu gyda BBC Parliament yn rhoi rhyw fath o gyd-destun. Cyfartaledd cynulleidfa prynhawn ar gyfer BBC Parliament yw 2,500 ar draws y DU, sydd yn awgrymu cynulleidfa o tua 200 yng Nghymru. Byddai cynulleidfa cartref ar gyfer S4C2 ar unrhyw adeg neilltuol yn y prynhawn mae'n debyg yn gyffelyb.

4.37. Mae BARB yn adrodd am gyrhaeddiad misol (15' yn olynol) o 350,000 ar gyfer BBC Parliament sydd yn awgrymu ffigur pro rata o tua 17,000 yng Nghymru. Mae'n annhebygol bod cyrhaeddiad S4C2 yn llawer uwch na hyn; arwydd unwaith eto bod y ffigur uchod o 35,000 yn rhy uchel.

Ansawdd

4.38. Efallai mai'r defnyddwyr mwyaf o'r gwasanaeth yw'r amrywiol Gyrff Anllywodraethol, Undebau Llafur, Adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyfryngau sydd yn defnyddio S4C2 i fonitro trafodaethau, dilyn hynt adroddiadau a dilyn ymchwiliadau a thystiolaeth a roddir i bwyllgorau.

4.39. Heb unrhyw dystiolaeth wrthrychol (h.y. Mynegai Gwerthfawrogiad) dim ond ar deimlad argraffiadol o ganfyddiad cynulleidfa a sylwadau anecdotaidd y gellir seilio ein hasesiad. Awgryma'r canfyddiad hwnnw bod nifer fechan o bobl yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth yn fawr iawn ac yn anecdotaidd, mae'r ymateb gan wleidyddion yn y Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan yn ffafriol.

Effaith

4.40. Unwaith eto awgryma tystiolaeth anecdotaidd mai bychan yw'r effaith ar y cyhoedd yn gyffredinol er ei fod yn wasanaeth a welir gan ei ddefnyddwyr fel un sydd yn rhoi gwybodaeth ac un sydd yn eu hymgysylltu.

Gwerth am arian

4.41. Ni allwn gyfrifo'r mesur arferol o Gost y Gwyliwr fesul Awr oherwydd diffyg data cynulleidfa.

5. Y gwasanaeth Cymraeg newydd arfaethedig i blant

<u>Cyd-destun</u>

5.1. Ers 1982 mae'r BBC wedi bod yn falch o gyflenwi'r rhaglenni mwyaf poblogaidd a'r rhai a werthfawrogir fwyaf ar S4C fel rhan o'i ddarpariaeth o ddeng awr o leiaf o raglennu yr wythnos.

5.2. Yn 2004 croesawodd y BBC gyhoeddiad Strategaeth Rhaglenni S4C oedd yn pwysleisio rhagoriaeth creadigol fel dilysnod gwasanaeth S4C Digidol. Gyda chyhoeddi'r strategaeth cafwyd eglurder pwrpas a chyfeiriad oedd i'w groesawu. Arweiniodd yn uniongyrchol at ffurfio'r Bartneriaeth Strategol a ddisgrifir yma.

5.3. Cydnabyddwn bod y cynnig cyfredol i sefydlu gwasanaeth teledu i blant yn dilyn yn uniongyrchol o Strategaeth Rhaglenni S4C. Ac fel 'gwasanaeth newydd' mae angen cymeradwyaeth Awdurdod S4C o dan y pwerau a nodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

5.4. Mae darpariaethau tebyg yn gynwysedig yn Siarter y BBC sydd yn nodi'n glir y dylai'r BBC hefyd fod â'r gallu i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus

newydd i'r DU, neu newid gwasanaethau cyfredol yn sylweddol neu eu dirwyn i ben, er enghraifft er mwyn ymateb i newidiadau mewn technoleg, diwylliant, amodau'r farchnad, disgwyliadau cyhoeddus ac yn y blaen, yn amodol, lle bo'n briodol, i'r Prawf Gwerth Cyhoeddus.

Cynigion

5.5. Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r dull lle y byddai Awdurdod S4C yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon nodi cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y Gwasanaeth Newydd.

5.6. Un model fyddai'n werth ei ystyried yn hyn o beth fyddai'r Trwyddedau Gwasanaeth y byddai'n ofynnol i Ymddiriedolaeth y BBC eu mabwysiadu fel fframwaith atebolrwydd yn seiliedig ar fesurau i sicrhau bod pob gwasanaeth gan y BBC yn creu gwerth cyhoeddus trwy gyflwyno Dibenion Cyhoeddus y BBC.

5.7. Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y BBC Drwyddedau Gwasanaeth ar gyfer CBeebies a CBBC ar 30 Ebrill 2007. Maent yn nodi nodweddion allweddol pob gwasanaeth ac maent ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust

Nodweddion y Gwasanaeth Newydd

5.8. Cydnabyddwn y manteision sylweddol potensial i blant a phobl ifanc yn eu harddegau a ddaw yn sgil darparu rhaglennu parhaus trwy gydol y dydd a chroesawn uchelgais y Gwasanaeth Newydd fel a nodir yn Rhan 1 o'r ddogfen ymgynghori.

5.9. Mewn ymateb i Rhan 1, para 3 o'r ddogfen ymgynghori mae rhai meysydd lle y byddai esboniad pellach o gymorth i'r drafodaeth:

1. Beth fyddai dibenion cyhoeddus a mesurau perfformiad y Gwasanaeth Newydd?

2. A fyddai'r Gwasanaeth Newydd yn ddarostyngedig i gwotâu Haen 2 perthnasol Ofcom? (er enghraifft mae CBBC a Cbeebies yn ddarostyngedig i gwotâu cynhyrchu gwreiddiol)

3. Mae dalen glawr y ddogfen ymgynghori a llythyr y Cadeirydd yn cyfeirio at *"sianel deledu Gymraeg newydd i blant".* Fodd bynnag mae cyfeiriadau o fewn y ddogfen yn cyfeirio at y ffaith y bydd y gwasanaeth *"yn berthnasol i holl Blant Cymru "* ac y bydd yn *"wasanaeth Cymraeg ei iaith yn bennaf".*

   i. A fyddai yn wasanaeth Cymraeg neu a fyddai allbwn Saesneg ynddo?

   ii. Os felly, beth fyddai'r cydbwysedd rhwng y ddwy iaith a pha asesiad y mae'r Awdurdod wedi'i wneud o ran gwerth darpariaeth o'r fath?

   iii. A fyddai rhaglenni ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ar oriau brig?

4. Sut y byddai'r Gwasanaeth Newydd ar "ddwy sianel" ar gyfer "tair cynulleidfa" yn cael ei frandio?

5. Erbyn pryd yr amcangyfrifir y bydd y Gwasanaeth Newydd yn cyrraedd ei uchafswm oriau o ddarlledu 15 awr y dydd rhwng 6.00am a 9.00pm?

6. Ydy'r cyfeiriad at *"raglenni newyddion wedi'u teilwra ar gyfer eu gofynion unigryw (h.y. gofynion plant) ac o'u persbectif unigryw"* yn awgrymu y bydd angen allbwn newyddion arall gan y BBC neu eraill?

5.10. Hefyd mae'r canfyddiadau y cyfeiriwn atynt yn adran 2 yn ymddangos fel pe baent yn cadarnhau barn yr Awdurdod bod teledu Cymraeg yn dod yn llai a llai perthnasol ym mywydau plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Awgryma agweddau newidiol y gynulleidfa darged tuag at y cyfryngau, symudedd a dewis y gall dulliau eraill o gyflwyno ddod yr un mor effeithiol, os nad yn fwy effeithiol. Felly efallai y byddai'r Awdurdod yn dymuno ystyried lansio gwasanaeth newydd (neu rannau ohono ar gyfer cynulleidfaoedd penodol) ar fand eang a llwyfannau symudol yn unig.

5.11. Hefyd, yng ngoleuni'r rhwymedigaeth statudol ar y BBC ac fel rhan o'r Fframwaith Cynllunio Golygyddol, bydd angen i ni drafod a chytuno gydag S4C lle y bydd ein rhaglenni i blant a phobl ifanc yn eu harddegau yn ymddangos ar S4C, S4C Digidol ac S4C2.

5.12. Yn olaf, gyda'n mentrau talentau ein hunain yn BBC Cymru a gyda'r cyfleoedd a ddarperir trwy gydweithio agos gyda strand ieuenctid C2 Radio Cymru awgrymwn y dylid sefydlu ymagweddau ar y cyd tuag at ddatblygu talentau.

Y Dewisiadau

5.13. Mae'r ymgynghoriad yn nodi tri dewis ar gyfer defnyddio gofod ac yn ôl a ddeallwn y maent fel â ganlyn:

Dewis 1		
S4C Digidol	Amserlen arferol Rhaglenni Plant	Llun-Sul 12:30 tan 00:00 Llun-Sul o 06:00 tan 12:30
S4C2	Cynulliad Rhaglenni Plant	Mawrth-Iau o 09:00 tan 18:00 Gweddill yr amserlen o 06:00 tan 21:00

Dewis 2		
S4C Digidol	Amserlen arferol	Llun-Sul o 12:30 tan 00:00
S4C2/ Gwasanaeth Newydd	Rhaglenni Plant	Llun-Sul o 06:00 tan 21:00

Dewis 3		
S4C Digidol	Amserlen arferol	Llun-Sul o12:30 tan 00:00
S4C2	Cynulliad	Mawrth-Iau o 09:00tan 18:00
Gwasanaeth Newydd	Rhaglenni Plant	Llun-Sul o 06:00 tan 21:00

5.14. Y bwriad yw symud gwasanaethau digidol cyfredol S4C – S4C Digidol ac S4C2 – i ofod amlblethiad y BBC (Mux B) yng Nghymru yn unig, o ddechrau'r newid i ddigidol yng Nghymru o 2009. Deallwn y bydd gan S4C wedyn fynediad i ofod sydd wedi'i ryddhau ar amlblethiad SDN, Mux A (y gofod wrth gefn y mae S4C yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd).

5.15. Croesawn felly y sylw yn Rhan 3, 2.1 bod gofod daearol digidol wedi'i gadw fel bod S4C yn gallu lansio gwasanaethau Cymraeg ychwanegol a ddarperir am ddim a thybiwn bod hyn yn cyfeirio at ofod wrth gefn sydd gan S4C ar amlblethiad SDN.

5.16. Ond dylem ychwanegu gair o eglurhad i'r sylw yn Rhan 1 4.2 sydd yn dweud - *"Golyga hyn ein bod yn rhedeg ail sianel ar lai na gofod llawn, a'r gofod hwn, boed o gwmpas yr oriau a ddefnyddir ar gyfer y Cynulliad neu ar ei ben ei hun, y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer y Gwasanaeth Newydd."*

5.17. Deallwn mai hyn fydd yn wir efallai gyda'r gofod sydd wrth gefn gan S4C ar amlblethiad SDN (Mux A) ac awgrymwn fel uchod y dylai S4C drafod y defnydd o'r gofod hwnnw. Fodd bynnag, dylem bwysleisio na fydd gofod dros ben y naill ochr i oriau cyfredol gwasanaeth Cynulliad S4C2 o gyfnod y newid i ddigidol yn Nghymru pan y bwriedir symud S4C2 i Mux B oherwydd bydd y gofod hwn yn cael ei ddefnyddio gan wasanaethau'r BBC.

5.18. Mae'r trafodaethau rhwng y BBC ac S4C ynglŷn â symud S4C Digidol a gwasanaeth cyfredol S4C2 i MUX B yng Nghymru yn parhau.

Dewis 1

5.19. Mae'r amserlen ddarlledu gyfredol ar S4C Digidol yn cynnwys rhaglenni plant (Planed Plant) dydd Llun tan dydd Gwener 4.00pm – 6.00pm.

5.20. Nid yw'n eglur yn y cynigion hyn a fydd yr oriau hyn ar S4C Digidol yn cael eu rhyddhau ar gyfer rhaglennu arall. Os na, a ellir eu hymestyn hyd yn oed ar gyfer rhaglennu plant rhwng 3.00pm a 6.00pm ar S4C Digidol pan fo S4C2 yn darlledu gwasanaeth y Cynulliad?

5.21. Fodd bynnag cydnabyddwn anfanteision amharu ar y gwasanaeth a ddaw yn sgil y dewis hwn.

Dewis 2

5.22. Byddai dirwyn gwasanaeth y Cynulliad i ben ar S4C2 yn rhyddhau'r oriau yn ystod y dydd o ddydd Mawrth i ddydd Iau, 9.00am – 6.00pm ar gyfer y Gwasanaeth Newydd.

5.23. Yn ychwanegol, mae disgrifiad yr ymgynghoriad o Ddewis 1 yn nodi bod y gofod dros ben ar S4C Digidol rhwng 6.00am – 12.30pm hefyd ar gael ar gyfer rhaglennu cyn oedran ysgol.

5.24. Awgrymwn y gellid defnyddio'r gofod hwn yn y bore ar S4C Digidol ar gyfer darllediadau byw neu ddarllediadau wedi'u recordio o bwyllgorau'r Cynulliad o ddydd Mawrth i ddydd Iau. Gellid defnyddio'r un gofod ar ddyddiau eraill

yr wythnos ar gyfer darllediadau wedi'u recordio o sesiynau llawn a phwyllgorau'r Cynulliad.

5.25. Gyda'r math hwn o ddarlun, gallai perthynas cyd olygyddol BBC Cymru/S4C i ddarparu darllediadau o'r Cynulliad Cenedlaethol barhau.

5.26. Fodd bynnag, ni fyddai'r gwasanaeth yn darparu darllediadau byw o'r sesiynau llawn na chwestiynau i'r Prif Weinidog. Ni fyddai'n ddarlledu cyflawn ac felly byddai angen gosod ei werth cyhoeddus ochr yn ochr â darllediadau teledu eraill o'r Cynulliad Cenedlaethol a ddarperir gan BBC Cymru ac ITV Wales.

5.27. Hefyd i ail adrodd, nid oes gofod dros ben ar amlblethiad y BBC y tu hwnt i amserlen gwasanaeth Cynulliad cyfredol S4C2.

Dewis 3

5.28. I ni ymddengys mai hwn yw'r dewis gofod a allai ateb dyheadau S4C am Wasanaeth Newydd a'i sianeli cyfredol a ddarperir am ddim, S4C Digidol ac S4C2.

5.29. Awgrymwn y gallai S4C ddefnyddio ei ofod wrth gefn ar amlblethiad SDN i gludo'r Gwasanaeth Newydd.

5.30. Yn y darlun hwn, gellid rhoi S4C Digidol a gwasanaeth Cynulliad S4C2 ar amlblethiad y BBC fel y bwriadwyd a gallai'r Gwasanaeth Newydd ddefnyddio gofod wrth gefn S4C ar amlblethiad SDN.

6. Casgliad

6.1. Yn adran 5 rydym wedi darparu'r cyd-destun ar gyfer ein hymateb i'r tri dewis a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori. Dylem bwysleisio ein bod yn cydnabod mai mater i Awdurdod S4C yw ystyried unrhyw benderfyniad i newid y defnydd a wneir o ofod digidol S4C2 ac i ofyn am gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

6.2. I ni ymddengys mai Dewis 3 yw'r un sydd yn cyflawni'r amcan o sefydlu gwasanaeth teledu newydd i blant tra ar yr un pryd yn parhau i ddarparu darllediadau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os yw ein dealltwriaeth o'r pwynt a wneir yn Rhan 3 2.1 yn gywir yna gellir cyflawni hyn oherwydd bydd y gofod ar gael ar amlblethiad SDN fel rhan o ofod wrth gefn S4C. Mater i Awdurdod S4C fydd ystyried a ddylid darparu cyllid ar gyfer y dewis hwn.

6.3. Ond os mai'r dewis realistig yw'r un rhwng Dewis 1 a Dewis 2 yna credwn mai'r mater i Awdurdod S4C fydd pwyso a mesur gwerth cyhoeddus darparu gwasanaeth newydd cydlynol i blant yn erbyn ei asesiad o'r gwerth cyhoeddus o barhau i ddarlledu o'r Cynulliad Cenedlaethol ar S4C2.

Atodiad A

Y Cwestiynau a Ofynnir yn y Ddogfen Ymgynghori

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?
   - c.f. Adran 3

2. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch barn am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?
   - c.f. Adran 5 a Adran 1

3. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?
   - c.f. 5.5 – 5.12

4. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?
   - c.f. Adran 5

5. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?
   - Ni chredwn y byddai gwasanaeth teledu Cymraeg fel a ddisgrifir yn cael ei gynnig gan ddarparwr arall ar sail masnachol.

6. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?
   - Awgrymwn y gellid ychwanegu'r canlynol i restr y deiliaid diddordeb: Pwyllgor Tŷ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Canolfan Celfyddydau Cymru, Mentrau Iaith, BECTU, NUJ, Equity, Writer's Guild, Cyfle, Skillset

7. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i blant?
   - c.f. prif ddogfen

Atodiad B

Darlledu gwleidyddol BBC Cymru

1. Cyn Datganoli:

Ym 1998, y flwyddyn cyn datganoli, cynhyrchodd BBC Cymru dros 100 awr o raglenni gwleidyddol arbennig. Wrth gwrs roedd gwleidyddiaeth yn cael sylw helaeth ar raglenni newyddion a materion cyfoes. Roedd yn gyfnod cyffrous yng ngwleidyddiaeth Cymru gyda Deddf Llywodraeth Cymru yn cyrraedd y llyfr statud, creu deddfwriaeth i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol cyntaf erioed i Gymru. Bu Ron Davies a Rhodri Morgan yn brwydro yn erbyn ei gilydd i ddod yn ymgeisydd y Blaid Lafur ar gyfer Prif Weinidog cyntaf y Cynulliad, ac wrth gwrs yn dilyn ei 'foment gwallgof' ar Gomin Clapham cafwyd oriau o sylw ar y cyfryngau.

Dyma ddadansoddiad o gynnyrch gwleidyddol arbennig BBC Cymru yn ystod y flwyddyn honno.

BBC 1:

Welsh Questions – rhaglen fisol yn dangos Cwestiynau Cymreig o'r Senedd - 30" x 9 rhaglen

BBC2:

Welsh Lobby - arolwg gwleidyddol wythnosol - 30" x 33 rhaglen
Rhaglenni byw o gynadleddau - darllediadau o'r Cynadleddau Cymreig - 2'00 x 4 rhaglen.

S4C:

Maniffesto - arolwg gwleidyddol wythnosol - 30" x 34 rhaglen
Pawb a'i Farn – rhaglen drafod wleidyddol wythnosol gyda chynulleidfa fyw - 50" x 14 rhaglen
Rhaglenni byw o gynadleddau - darllediadau o'r Cynadleddau Cymreig - 2'00 x 4 rhaglen.

Radio Wales:

People's Assembly - rhaglen drafod wythnosol gyda chynulleidfa fyw - 30" x 40 rhaglen
Darlledu gwleidyddol, yn seiliedig ar y newyddion yn bennaf, gydag allbwn gwleidyddol ychwanegol ad hoc gyflwynwyd yn bennaf gan Patrick Hannan.

Radio Cymru:

Wythnos Gwilym Owen, Manylu a Llinyn Mesur yn trafod gwleidyddiaeth yn rheolaidd, fel y rhaglenni Newyddion, ond dim rhaglen benodol wleidyddol.

Ar-lein:
Newyddion Ar-lein yn dechrau ym 1997 – dim safle penodol ar gyfer gwleidyddiaeth Cymru.

2. Cynnyrch Cyfredol:

BBC1 + BBC2:

Dragon's Eye – cyfres ymchwiliol wleidyddol wythnosol - 30" x 30

BBC1:

The Politics Show – rhaglen wleidyddol wythnosol - 20" x 35

BBC2:

AM PM – rhaglen ddwywaith yr wythnos sy'n dangos y Cynulliad a San Steffan, gan gynnwys Cwestiynau'r Prif Weinidog o'r Cynulliad, Cwestiynau Cymreig a Chwestiynau'r Prif Weinidog o'r Senedd. - 60" x 30/ 90" x 30 rhaglen

Rhaglenni byw o gynadleddau - darllediadau o'r Cynadleddau Cymreig - 2'00 x 4.

S4C:

Maniffesto – arolwg wythnosol gwleidyddol o straeon ledled y DU - 30" x 34 (i'w ail-lansio'n fuan gyda theitl newydd mewn slot hwyr y nos ganol wythnos)

Pawb a'i Farn - rhaglen drafod wleidyddol wythnosol gyda chynulleidfa fyw - 50" x 14

Rhaglenni byw o gynadleddau - darllediadau o'r Cynadleddau Cymreig - 2'00 x 4.

S4C2:

Darlledu cynhwysfawr o drafodion y Cynulliad - 27 awr yr wythnos, 35 wythnos y flwyddyn

Radio Wales:

Called to Order – rhaglen drafod wythnosol - 30" x 40

Radio Cymru:

Dau o'r Bae - rhaglen drafod wythnosol - 45" x 35.

Online:

Tudalennau gwleidyddol penodol ar safleoedd News Online a blog y Golygydd Gwleidyddol

Ar-lein:

Tudalennau gwleidyddol penodol ar safleoedd Newyddion Ar-lein a blog Vaughan Roderick

Radio 4:

Cyfraniad wythnosol gan Adrian Masters i Yesterday in Parliament

BBC Parliament:

Dragon's Eye yn cael ei ddarlledu ar BBC Parliament fel y mae trafodaethau allweddol o siambr y Cynulliad.

3. Etholiadau'r Cynulliad ac Etholiadau Cyffredinol:

BBC1, S4C, Radio Wales, Radio Cymru ac Ar-lein/Online
- Rhaglenni Canlyniadau Byw gynhyrchir gan y timau gwleidyddol a newyddion bob dwy flynedd ers 1999.

Yn ystod ymgyrch etholiad 2007 cafwyd tair rhaglen arbennig o drafodaeth wleidyddol ar BBC1, a thri Pawb a'i Farn ychwanegol awr o hyd ar S4C.

Astudiodd "Your Election" ar BBC 2W ar yr ymgyrch etholiadol gan gynnwys cyfraniadau'r gwylwyr a materion a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd - 30" x 3.

4. Seremonïau Agoriadol o'r Cynulliad :

Darlledodd BBC Cymru yn helaeth o Agoriad Brenhinol y Senedd yn 2006.

Yn dilyn pob etholiad Cynulliad mae BBC Cymru wedi darlledu rhaglenni arbennig yn dangos y Frenhines yn cychwyn y tymor gwleidyddol newydd yn swyddogol.

5. Darlledu Gwleidyddol yn y newyddion dyddiol:

Wales Today:
Wythnos arferol - rhwng 10% a 15% yn bynciau gwleidyddol.
Wythnos Etholiad - 40%

RADIO CYMRU:
Wythnos arferol - 28%
Wythnos Etholiad - 40%

RADIO WALES:
Wythnos arferol - 30%
Wythnos Etholiad - 38%

Newyddion ar S4C:
Wythnos arferol - 15%
Wythnos Etholiad - 30%

6. Isetholiadau.

Ers 1999 mae dau isetholiad i'r Cynulliad wedi bod yn Nwyrain Abertawe a Blaenau Gwent – cafodd y ddau sylw mewn rhaglenni arbennig yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wasanaethau BBC Cymru a S4C.